The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Nodyn cyfarfod

Enw'r prosiect	Fferm Wynt Alltraeth Mona
Cyfeirnod ffeil	EN010137
Statws	**Drafft**
Awdur	Yr Arolygiaeth Gynllunio
Dyddiad	10 Ionawr 2023
Cyfarfod gyda	BP/EnBW
Lleoliad	MS Teams
Amcanion y cyfarfod	Cyfarfod Diweddaru ynglŷn â'r Prosiect
Cylchrediad	Pawb a oedd yn bresennol

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol a drafodwyd, a'r cyngor a roddwyd

Cynghorodd yr Arolygiaeth Gynllunio (yr Arolygiaeth) y byddai nodyn o'r cyfarfod yn cael ei wneud a'i gyhoeddi ar ei gwefan yn unol ag adran 51 Deddf Cynllunio 2008. Ni fyddai unrhyw gyngor a roddid o dan adran 51 yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallai'r ymgeiswyr (neu eraill) ddibynnu arno.

Disgrifiad o'r Prosiect

Cynhaliwyd cyfarfod ar y cyd ar gyfer ffermydd gwynt alltraeth Mona a Morgan, sef dau brosiect ar wahân ym Môr Iwerddon. Mae Fferm Wynt Alltraeth Morgan wedi'i lleoli yn nyfroedd gogledd-orllewinol Lloegr, ac mae Mona wedi'i lleoli yn nyfroedd Cymru yn bennaf, gan orgyffwrdd ychydig â dyfroedd Lloegr. Daeth y broses o lofnodi Cytundebau Prydles Rownd 4 Prydlesu Ynni Gwynt Alltraeth i ben ym mis Ionawr 2023. Mae Ystad y Goron wedi cadarnhau y bu Fferm Wynt Alltraeth Mona (y Datblygiad Arfaethedig) yn llwyddiannus yn y rownd hon. Disgwylir i'r Datblygiad Arfaethedig fod â chapasiti trawsyrru o hyd at 1.5GW, gan ddarparu capasiti cyfan o 3GW gyda'i gilydd, y dywedodd yr Ymgeisydd y byddai'n ddigon i bweru 3.4 miliwn o gartrefi yn y Deyrnas Unedig.

Strategaeth Gydsynio

Bydd y Datblygiad Arfaethedig yn ceisio Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) a fydd yn ymdrin â'r asedau generadu a'r elfennau alltraeth. Mae'r Datblygiad Arfaethedig wedi'i leoli yn nhiriogaethau Cymru a Lloegr. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd y byddai'n ceisio ystyried trwydded forol yn rhan o'r DCO ar gyfer:

(i) gweithgareddau trwyddedadwy sy'n gyfan gwbl o fewn Dyfroedd Alltraeth Cymru (y tu hwnt i 12 môr-filltir o'r arfordir)
(ii) gweithgareddau trwyddedadwy sydd wedi'u lleoli yn nyfroedd Lloegr.

Ceisir trwydded forol ar wahân gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy o fewn 12 môr-filltir o arfordir Cymru.

Mae'r Ymgeisydd yn gweithio'n agos gyda CNC i gynhyrchu dogfen Egwyddorion Trwydded Forol er mwyn cyflwyno'n glir sut y bydd y gwahanol drwyddedau morol yn rhyngweithio â'i gilydd. Bydd nodyn esboniadol yn egluro sut bydd y gwahanol ddulliau hyn yn cyd-fynd â'i gilydd yn y DCO. Cynghorodd yr Arolygiaeth y byddai cynnwys y cytundeb â CNC yn y ddogfen Egwyddorion Trwydded Forol yn fuddiol i'r cais.

Diweddariad ar Ymgynghori

Trafododd yr Ymgeisydd ei weithgarwch ymgynghori hyd yma a'i gynllun ar gyfer ymgysylltu ymhellach. Mae'r Ymgeisydd wedi cynnal dau ymgynghoriad anstatudol, ochr yn ochr ag ymgynghoriad cyffredinol ychwanegol ynglŷn â'r seilwaith ar y tir. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn o fis Mehefin i fis Awst 2022, a chynhaliwyd ymgynghoriad anstatudol ynglŷn â'r seilwaith ar y tir o fis Medi i fis Tachwedd 2022. Mae'r Ymgeisydd hefyd wedi sefydlu gweithgorau arbenigol, sesiynau rhanddeiliaid misol gyda chyrff cadwraeth natur statudol ac ymgynghoriad â physgodfeydd. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd y bydd ymgynghoriad ar yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol (PEIR) yn cael ei gynnal rhwng mis Ebrill a mis Mai 2023. Esboniwyd bod gorgyffyrddiad bach â dyfroedd Lloegr ar hyn o bryd. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd y bydd ffermydd gwynt Morcambe, Morgan a Mona yn ymgynghori ar yr un pryd.

Diweddariadau ar Arolygon ac Asesiadau

Cynhaliodd yr Ymgeisydd arolygon geoffisegol yn 2022, gan ganolbwyntio ar amodau tir cymysg, a bydd angen cynnal astudiaethau ychwanegol yn 2023. Cadarnhawyd bod arolygon ecoleg cam un wedi cael eu cwblhau ac y bydd yr astudiaethau ar y tir yn parhau drwy gydol 2023. Adlewyrchir y setiau data hyn yn y PEIR. Mae arolygon gaeafu'n mynd rhagddynt hefyd. Holodd yr Arolygiaeth b'un a oedd yr Ymgeisydd wedi ystyried effaith ffliw adar. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd ei fod yn parhau i ymgysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru ac y bydd trafodaethau pellach yn cynnwys materion o'r fath.

Mae'r Ymgeisydd hefyd wedi cynnal nifer o arolygon Morgludiant a Mordwyo yn y dyfroedd amgylchynol. Ymgynghorwyd yn helaeth â rhanddeiliaid mordwyo allweddol, gan gynnwys cynnal efelychiadau pont ac Asesiad Risg Mordwyo (NRA). Defnyddiwyd yr NRA i gadarnhau effeithiau cronnol y prosiectau Rownd 4 ar y PEIR. Mae'r Ymgeisydd wedi ymrwymo i ddiwygio ffiniau datblygiad Mona, a bydd hyn yn cael ei drafod yn yr ymgynghoriad ynglŷn â'r PEIR.

Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol

Trafododd yr Ymgeisydd ba ddogfennau a fydd yn cael eu cynnwys yn y PEIR a gyhoeddir, a ddisgwylir yn hwyr ym mis Mawrth 2023. Bydd yr Ymgeisydd yn cyflwyno Datganiad Amgylcheddol drafft, Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft, Cynlluniau Gwaith rhagarweiniol, Trwydded Forol Dybiedig ddrafft a Chod Ymarfer Adeiladu (CoCP). Holodd yr Arolygiaeth a fyddai Asesiad Rheoliadau Cynefineodd drafft yn cael ei gynnwys yn y PEIR hefyd. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd y byddai ymarfer sgrinio o'r Effeithiau Arwyddocaol Tebygol yn cael ei gynnwys.

Amserlen Ddangosol

Ch1 2023: Cyflwyno'r PEIR

Ch1 2024: Cyflwyno'r DCO

Unrhyw Fater Arall

Cadarnhaodd yr Ymgeisydd ei fod yn bwriadu cyflwyno ei gais DCO yn ystod chwarter cyntaf 2024. Ceisiodd gyngor gan yr Arolygiaeth ynglŷn â ph'un ai cyflwyno'r cais ar yr un pryd â Fferm Wynt Alltraeth Morgan, neu oedi ychydig. Cadarnhaodd yr Arolygiaeth mai penderfyniad yr Ymgeisydd yw hyn yn y pen draw. Fodd bynnag, dylid rhoi sylw i'r mater, yn amlwg, a byddai'n fuddiol ei drafod ymhellach mewn cyfarfodydd dilynol.

Camau Nesaf

O ystyried nifer y Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIPs) yn yr un ardal, sy'n dilyn graddfeydd amser tebyg iawn, dywedodd yr Arolygiaeth wrth yr Ymgeisydd efallai y byddai'n fuddiol cynnal cyfarfodydd mwy rheolaidd, y byddai eu hamlder yn cael ei ystyried a'i gytuno.